**CYNGOR CAERDYDD**

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**
# Templed Asesu Corfforaethol

| | |
|---|---|
| **Teitl y Strategaeth:** Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 | |
| **Diweddaru:** adolygiad o fersiwn wreiddiol Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017-22 | |

| **Pwy sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth?** | |
|---|---|
| Enw: Ffion Gruffudd | Teitl y Swydd: Pennaeth Caerdydd Ddwyieithog |
| Tîm Gwasanaeth: Caerdydd Ddwyieithog | Gwasanaeth: Perfformiad a Phartneriaethau |
| Dyddiad Asesu: 19/01/22 | |

**1. Beth yw amcanion y Strategaeth?**

Mae creu a chyhoeddi Strategaeth 5 Mlynedd Hybu'r Gymraeg, yn ogystal ag adolygiadau dilynol, yn ofyniad statudol ar gyfer Cyngor Caerdydd yn unol â Safonau'r Gymraeg. Cyflwynwyd Safonau'r Gymraeg (1) i Gyngor Caerdydd yn 2016 dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Caerdydd Ddwyieithog yn strategaeth i'r ddinas gyfan sy'n nodi blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer hybu a datblygu'r Gymraeg yng Nghaerdydd. Cyhoeddwyd y Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog gyntaf yn 2017 ac mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 yn cynrychioli ei hadolygiad cyntaf.

Gweledigaeth ac amcan craidd Caerdydd Ddwyieithog yw parhau i ddatblygu a chynnal Caerdydd fel prifddinas wirioneddol ddwyieithog – dinas lle gall ein dinasyddion fyw, gweithio a chwarae yn y Gymraeg a'r Saesneg, a mwynhau mynediad at wasanaethau a chymorth dwyieithog sy'n gyfartal o ran argaeledd, ansawdd a hygyrchedd. Mae Caerdydd Ddwyieithog yn cefnogi ymrwymiad Cyngor Caerdydd i hyrwyddo dwyieithrwydd fel rhan arferol a naturiol o brofiad dinasyddion ac i gefnogi a meithrin y Gymraeg i genedlaethau'r dyfodol ei defnyddio a'i mwynhau.

**1. Rhowch wybodaeth gefndirol am y Strategaeth ac unrhyw ymchwil sydd wedi'i wneud [e.e. data defnyddwyr gwasanaeth yn erbyn ystadegau demograffig, AEGau tebyg sydd wedi'u gwneud ayyb.]**

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol yng Nghymru i gydymffurfio â safonau yn ymwneud â'r Gymraeg trwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015). Rhestrir y safonau a gyflwynwyd i Gyngor Caerdydd yn 'Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Caerdydd - Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'.

Mae Safon 145 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Caerdydd lunio a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd – ac wedyn adolygu'r strategaeth hon bob 5 mlynedd - gan ddisgrifio sut y bydd yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Caerdydd

Ddwyieithog 2022-27 yw'r adolygiad cyntaf o'r strategaeth hon ac – yn unol â safonau'r Gymraeg – mae'n ofynnol i Gyngor Caerdydd gyhoeddi'r strategaeth erbyn 1 Ebrill 2022.

Mae Safon y Gymraeg 145 yn datgan:

> Rhaid i chi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) - (a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw, a (b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid i chi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).

Mae Caerdydd Ddwyieithog 2022-2027 yn cynnwys targed wedi'i ddiweddaru ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn ychwanegol at gamau penodol i hwyluso defnydd o'r Gymraeg i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel y disgrifir yn ei dogfen strategaeth, *Cymraeg 2050*: *Miliwn o Siaradwyr Cymraeg.*

Bu Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 yn destun ymgynghoriad mewnol ym mis Medi 2021 ac ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Hydref a mis Tachwedd 2021. Diben yr ymgynghoriadau oedd nodi blaenoriaethau staff a dinasyddion ar gyfer hybu'r Gymraeg a diwygio cynllun gweithredu'r Strategaeth o ganlyniad i'r sylwadau a gafwyd. Lluniodd Tîm Ymchwil Caerdydd adroddiadau ar yr ymgynghoriadau mewnol a chyhoeddus ar Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 a chyflwynir y rhain fel atodiadau ar gyfer Strategaeth Ddwyieithog Caerdydd 2022-27 i'w hystyried gan Gabinet y Cyngor a'r Cyngor.

Ymgynghorwyd hefyd â phartneriaid Fforwm Caerdydd Ddwyieithog ar y Strategaeth a'i chynllun gweithredu a ffurfiwyd tri is-grŵp i fonitro ac adrodd ar weithredu'r tair thema a gyflwynwyd. Mae'r tair thema yn adlewyrchu'r themâu a gyflwynwyd yn Cymraeg 2050, strategaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Paratowyd Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 ochr yn ochr â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022-2032 y Cyngor. Mae'r targedau wedi'u halinio ac mae'r ddwy Strategaeth yn ategu ei gilydd ac yn cefnogi targed Llywodraeth Cymru o weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel y disgrifir yn Cymraeg 2050.

Mae Caerdydd wedi bod yn un o'r dinasoedd mawr sy'n tyfu gyflymaf yng ngwledydd Prydain, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd wedi mwy na dyblu dros y 25 mlynedd diwethaf ac mae

Cyfrifiad 2011 yn dangos bod dros 16% o boblogaeth y ddinas yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg.

Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn cyfrannu at gyflawni'r saith amcan lles cenedlaethol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda phwyslais penodol ar ddiwylliant bywiog Cymru lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu fel iaith fyw.

Mae Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 yn dilyn y tair thema graidd a gyflwynwyd gan Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg wrth flaenoriaethu, strwythuro a nodi camau gweithredu ategol. Mae'r themâu hyn fel a ganlyn:

- Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

## 3 Asesu'r Effaith ar y Nodweddion Gwarchodedig

### 3.1 Oedran

A fydd y Strategaeth hon yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol/]** ar bobl iau/hŷn?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Hyd at 18 oed | X | | |
| 18 - 65 oed | X | | |
| Dros 65 oed | X | | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Bydd themâu strategol Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 yn cael eu poblogi â chamau gweithredu penodol i hybu a chefnogi'r Gymraeg a bydd yn gwneud yr iaith yn fwy hygyrch i ddinasyddion o bob oed. |
| **Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Mae Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 yn cynnwys ffocws cryf ar addysg a hyfforddiant statudol ac ôl-statudol. Bydd y camau sydd yn ei gynllun gweithredu ategol yn adlewyrchu ac yn cyfrannu at gyflawni CSCA Cyngor Caerdydd ac yn gweithio tuag at gynyddu cyfleoedd i fyfyrwyr oedran ysgol ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau.<br><br>Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys ymrwymiadau i ddatblygu ymhellach y ddarpariaeth o hyfforddiant yn y Gymraeg i oedolion yng Nghaerdydd a ffocws penodol ar ddarparu hyfforddiant i staff Cyngor Caerdydd. |

### 3.2 Anabledd

A fydd y Strategaeth hon yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol/]** ar bobl anabl?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Nam ar y Clyw | | X | |
| Nam Corfforol | | X | |
| Nam ar y Golwg | | X | |
| Anabledd Dysgu | | X | |
| Salwch neu Gyflwr Iechyd Hirdymor | | X | |
| Iechyd Meddwl | | X | |
| Camddefnyddio Sylweddau | | X | |
| Arall | | X | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi, y tu hwnt i'r effaith gadarnhaol gyffredinol o weld mwy o wasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau partner ar gael yn Gymraeg ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig. |
| **Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi. |

### 3.3 Ailbennu Rhywedd

A fydd y Strategaeth hon yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol/]** ar bobl drawsryweddol?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| **Pobl Drawsryweddol**<br>(Pobl sy'n bwriadu ymgymryd, sydd yn ymgymryd neu sydd wedi ymgymryd â phroses [neu ran o broses] i ailbennu eu rhyw trwy newid priodoleddau ffisiolegol neu briodoleddau eraill rhywedd). | | X | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|

| |
|---|
| Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi, y tu hwnt i'r effaith gadarnhaol gyffredinol o weld mwy o wasanaethau'r Cyngor ar gael yn Gymraeg ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig. |
| **Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi. |

### 3.4 Priodas a Phartneriaeth Sifil

A fydd y Strategaeth hon yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar briodas a phartneriaeth sifil?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Priodas | | X | |
| Partneriaeth Sifil | | X | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi, y tu hwnt i'r effaith gadarnhaol gyffredinol o weld mwy o wasanaethau'r Cyngor (Cofrestryddion yn benodol) ar gael yn Gymraeg ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig. |
| **Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi. |

### 3.5 Beichiogrwydd a Mamolaeth

A fydd y Strategaeth hon yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar feichiogrwydd a mamolaeth?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd | | X | |
| Mamolaeth | | X | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi, y tu hwnt i'r effaith gadarnhaol gyffredinol o weld mwy o wasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau partner ar gael yn Gymraeg ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig. |
| **Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi. |

### 3.6 Hil

A fydd y Strategaeth hon yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar y grwpiau canlynol?

| | **Bydd** | **Na fydd** | **Dd/B** |
|---|---|---|---|
| Gwyn | | **X** | |
| Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig | | **X** | |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig | | **X** | |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | | **X** | |
| Grwpiau Ethnig Eraill | | **X** | |
| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** | | | |
| Mae Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 yn ymwneud â sicrhau bod y Gymraeg yn hygyrch ac yn weladwy yng Nghaerdydd. Mae'r strategaeth yn cynnwys ymrwymiadau i gynnal a datblygu ymhellach y ddarpariaeth addysg gynradd ac uwchradd yn y ddinas i sicrhau bod aelodau o holl gymunedau Caerdydd yn cael y cyfle i ymgysylltu ag addysg cyfrwng Cymraeg ac yn cael mynediad teg iddi. | | | |
| **Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** | | | |
| Mae Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 yn cynnwys ymrwymiad i gefnogi Swyddog Hyrwyddo Addysg rhanbarth De-ddwyrain Cymru. Bydd y swyddog hwn yn gweithio i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg gyda phob cymuned ac yn rhoi cyhoeddusrwydd iddi a'r ffyrdd o fanteisio arni i grwpiau a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd. | | | |

| |
|---|
| Mae'r Strategaeth hefyd yn cynnwys ymrwymiadau i hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'r Gymraeg gyda chymunedau newydd a rhai sy'n datblygu yng Nghaerdydd. |

### 3.7 Crefydd, Cred neu Ddiffyg Cred

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar bobl sydd â gwahanol grefyddau, credoau neu ddiffyg cred?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Bwdhydd | | X | |
| Cristion | | X | |
| Hindŵ | | X | |
| Dyneiddiwr | | X | |
| Iddew | | X | |
| Mwslim | | X | |
| Sikh | | X | |
| Arall | | X | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi, y tu hwnt i'r effaith gadarnhaol gyffredinol o weld mwy o wasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau partner ar gael yn Gymraeg ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig. |
| **Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi. |

### 3.8 Rhywedd

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar ddynion a/neu fenywod?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Dynion | | X | |
| Menywod | | X | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi, y tu hwnt i'r effaith gadarnhaol gyffredinol o weld mwy o wasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau partner ar gael yn Gymraeg ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig. |
| **Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi. |

### 3.9 Cyfeiriadedd Rhywiol

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar y grwpiau canlynol?

| | **Bydd** | **Na fydd** | **Dd/B** |
|---|---|---|---|
| Deurywiol | | **X** | |
| Dynion Hoyw | | **X** | |
| Menywod Hoyw/Lesbiaid | | **X** | |
| Heterorywiol/Syth | | **X** | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi, y tu hwnt i'r effaith gadarnhaol gyffredinol o weld mwy o wasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau partner ar gael yn Gymraeg ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig. |
| **Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi. |

### 3.10 Y Gymraeg

A fydd y Strategaeth hon yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar y Gymraeg?

| | **Bydd** | **Na fydd** | **Dd/B** |
|---|---|---|---|
| Y Gymraeg | **X** | | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Mae Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 yn strategaeth i'r ddinas gyfan sydd â'r nod o hybu a hwyluso'r Gymraeg. Caiff ei darparu gan Gyngor Caerdydd a'r partneriaid allanol sy'n aelodau o Fforwm Caerdydd Ddwyieithog i gynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio ac ymwneud â'r Gymraeg. Bydd y strategaeth hon yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yng Nghaerdydd. |
| **Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Mae cynllun gweithredu'r strategaeth yn manylu ar yr ystod lawn o gamau gweithredu i hybu a hwyluso'r Gymraeg yng Nghaerdydd. |

## 4. Ymgynghori ac Ymgysylltu

Pa drefniadau a wnaed i ymgynghori/ymgysylltu â'r gwahanol Grwpiau Cydraddoldeb?

| |
|---|
| Cynhaliwyd ymgynghoriad mewnol â staff Cyngor Caerdydd.<br><br>Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd ymgynghori gyda phartneriaid Fforwm Caerdydd Ddwyieithog ym mis Medi 2021.<br><br>Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Hydref a mis Tachwedd 2021.<br><br>Cyflwynwyd y strategaeth i'w thrafod yng nghyfarfod Gweithgor Caerdydd Ddwyieithog ar 6 Rhagfyr 2021. |

## 5. Crynodeb o Gamau Gweithredu [a restrir yn yr Adrannau uchod]

| **Grwpiau** | **Camau Gweithredu** |
|---|---|
| Oedran | Mae Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 yn cynnwys ffocws cryf ar addysg a hyfforddiant statudol ac ôl-statudol. Bydd y camau sydd yn ei gynllun gweithredu ategol yn adlewyrchu ac yn cyfrannu at gyflawni CSCA Cyngor Caerdydd ac yn gweithio tuag at gynyddu cyfleoedd i fyfyrwyr oedran ysgol ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau.<br><br>Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys ymrwymiadau i ddatblygu ymhellach y ddarpariaeth o hyfforddiant yn y Gymraeg i oedolion yng Nghaerdydd a ffocws penodol ar ddarparu hyfforddiant i staff Cyngor Caerdydd. |
| Anabledd | Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi. |
| Ailbennu Rhywedd | Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi. |
| Priodas a Phartneriaeth Sifil | Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi. |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi. |
| Hil | Mae Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 yn cynnwys ymrwymiad i gefnogi Swyddog Hyrwyddo Addysg rhanbarth De-ddwyrain Cymru. Bydd y swyddog hwn yn gweithio i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg gyda phob cymuned ac yn rhoi cyhoeddusrwydd iddi a'r ffyrdd o fanteisio arni i grwpiau a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd.<br><br>Mae'r Strategaeth hefyd yn cynnwys ymrwymiadau i hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'r Gymraeg gyda chymunedau newydd a rhai sy'n datblygu yng Nghaerdydd. |
| Crefydd/Cred | Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi. |
| Rhywedd | Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi. |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Dim effaith wahaniaethol wedi'i nodi. |
| Y Gymraeg | Mae cynllun gweithredu'r strategaeth yn manylu ar yr ystod lawn o gamau gweithredu i hybu a hwyluso'r Gymraeg yng Nghaerdydd. |

| | |
|---|---|
| Cyffredinol Generig [yn berthnasol i'r holl grwpiau uchod] | Bydd Caerdydd Ddwyieithog: Strategaeth 5 Mlynedd yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg. |

## 6. Rhagor o Gamau Gweithredu

Dylid cynnwys unrhyw argymhellion ar gyfer camau gweithredu yr ydych yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hwn (a restrir yn y Crynodeb o Gamau Gweithredu) fel rhan o Gynllun Busnes eich Gwasanaeth i'w monitro'n rheolaidd.

## 7. Awdurdodiad

Dylai'r Templed gael ei gwblhau gan Swyddog Arweiniol y Strategaeth a nodir a'i gymeradwyo gan y Rheolwr priodol ymhob Gwasanaeth.

| | |
|---|---|
| Cwblhawyd Gan: Dai Thomas ac Ifan Brychan | Dyddiad: |
| Swydd: Caerdydd Ddwyieithog | |
| Cymeradwywyd gan: Ffion Gruffudd | |
| Swydd: Caerdydd Ddwyieithog | |
| Gwasanaeth: Perfformiad a Phartneriaethau | |

7.1 Ar ôl cwblhau'r Asesiad hwn, sicrhewch y caiff y Ffurflen ei phostio ar Dudalen eich Cyfarwyddiaeth ar CIS - *Ledled y Cyngor/Systemau Rheoli/Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb* – fel bod cofnod o'r holl asesiadau yr ymgymerir â nhw yn y Cyngor.

I gael rhagor o wybodaeth neu gymorth, cysylltwch â'r Tîm Canolbwyntio ar Ddinasyddion trwy ffonio 029 2087 3059 neu e-bostio canolbwyntioarddinasyddion@caerdydd.gov.uk